Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Brynglas

**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
**Brynglas Drive**
**Newport**
**Gwent**
**NP20 5QS**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Brynglas

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Brynglas |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Brynglas |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jacob Gayle |
| Person â gofal | Lisa Aylett |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – ddydd Gwener/8.30yb – 3.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 30 Ebrill 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/11/2023 |
| Mae Cylch Meithrin Brynglas yn cynnig dwy sesiwn bob dydd, lle mae'r plant 2 oed yn mynychu'r sesiwn bore 8.30 – 11.00yb, a'r plant 3 oed yn mynychu'r sesiwn prynhawn 11.30-3yp. Cynhaliwyd ymweliadau'r arolygiad dros y ddau brynhawn. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Gwella gweithdrefnau amser byrbryd er mwyn annog plant i gymdeithasu yn fwy effeithiol

A2 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant

A3 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal leol a'u cynefin

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn hapus ac yn mwynhau estyn delweddau o sut maent eisiau cyfarch ymarferwyr a'u ffrindiau. Er enghraifft, maent wrth eu bodd wrth gyfarch gyda 'pump uchel,' chwifio dwylo neu gynnig gwtsh. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn hyderus. Er enghraifft, maent yn paentio wrth îsl mawr, chwarae yn y twba tywod neu ymlacio â llyfr. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn dewis eu ffrwyth eu hunain. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn llawn. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis eu llyfrau fel rhan o gynllun llyfrgell y lleoliad ac yn dangos balchder wrth eu gosod yn ofalus ar eu pegiau ar gyfer mynd â nhw adref i'w darllen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn setlo'n gyflym ac yn teimlo'n gartrefol yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr ac maent yn teimlo'n ddiogel. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth. Er enghraifft, wrth iddynt edrych ar arddangosfa o luniau perthnasau ar Goeden Deulu, mae'r plant yn gyffrous wrth adnabod ac enwi aelodau eu teulu. Mae'r rhan fwyaf yn ymdopi'n dda ac yn hyderus i ofyn am gymorth.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu yn eu chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gymryd tro. Er enghraifft, maent yn gwrtais iawn wrth aros eu tro i ddefnyddio’r ffynnon ddŵr. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, trwy gydweithio i adeiladu llwybr o flociau pren gyda chewyll llaeth. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda’r ymarferwyr ac yn rhyngweithio’n dda ag ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gyfforddus ac yn hyderus i holi ymarferwyr am gymorth neu i esbonio rhywbeth. Er enghraifft, beth yw ysgewyll ac yn ofyn am gymorth i wisgo ffedogau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn canu caneuon Nadolig yn fyrlymus. Maent yn dyfalbarhau’n fwriadus wrth ddysgu ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio’n ofalus ac yn arbrofi am gyfnodau wrth ddefnyddio ysbienddrychau i edrych am adar. Mae’r rhan fwyaf o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd, er enghraifft wrth ddarganfod mwydod o dan boncyffion yn yr ardd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt olchi a sychu eu dwylo a bwyta eu cinio a byrbryd. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau dyddiol fel helpu i dacluso a brwsio eu dannedd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae’r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a’u diogelwch yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gweithredu’r polisïau a’r gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o brosesau diogelu ac yn sicrhau bod trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir. Mae’r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweinyddu meddyginiaeth ac maent yn cadw cofnodion ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae’r gweithdrefnau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau ac yn gwisgo menig a ffedogau wrth baratoi bwydydd iachus fel moron, afal, banana a mefus. Maent yn sicrhau bod dŵr ar gael i’r plant ar bob adeg ac maent yn cynnig llaeth ar gyfer byrbryd, gan ystyried alergeddau a gofynion unigol y plant yn drwyadl. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth cadarn am anghenion unigol y plant. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru trwyadl a threfnus ac maent yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl gyda'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modelu rhyngweithiadau naturiol a chynnes. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ystyried eu hymddygiad wrth ddysgu i rannu, aros a chymryd eu tro ac yn llwyddo i gael plant i ddeall yr effaith bositif ar eraill. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd gofalgar. Er enghraifft, maent yn esbonio'n gyson beth sydd yn digwydd nesaf, fel tacluso, neu frwsio dannedd a thrwy hynny maent yn creu ethos gefnogol. Mae'r ymarferwyr yn eistedd ac yn bwyta eu cinio wrth y bwrdd gyda'r plant. Maent yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu sgiliau, eu dealltwriaeth o arferion, a'u hunan hyder. Er enghraifft, wrth wylio ymarferwyr, mae'r plant yn llwyddo'n annibynnol i agor pecynnau o fewn eu bocsys bwyd. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd nid oes cyfleoedd effeithiol i'r plant gymdeithasu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn darparu'n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy rhwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol. Maent yn arsylwi ar blant mewn modd sensitif ac effeithiol ac yn adnabod pryd i gwestiynu, cynnig esboniadau a syniadau er mwyn annog plant i feddwl a datrys problemau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau profiadau amrywiol iawn sy'n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant blannu bylbiau Cennin Pedr er mwyn deall y broses o dyfu blodau ar gyfer y gwanwyn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu effeithiol yr ymarferwyr yn cymell y plant yn llwyddiannus. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt ymgymryd â phrofiadau dysgu a chwarae buddiol. Mae anogaeth gadarnhaol yr ymarferwyr yn cael effaith dda ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant. Maent yn eu herio'r plant i weithio'n annibynnol wrth ddatblygu eu holl fedrau. Er enghraifft, maent yn ysgogi'r plant i gynllunio a chreu addurniadau Nadolig gyda glud a gliter ac i gydweithio tra'n llifo dŵr o un cafn i'r llall i lenwi bwced.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddeallus wrth i'r plant chwarae. Maent yn eu holi'n fedrus ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn geirfa a chystrawen y plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n ddysgwyr effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i edafu riliau ar ddarn o gortyn ac i ddatrys problemau yn annibynnol fel symud gwrthrychau o un man i'r llall mewn berfa.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn cymell y plant i yrru beiciau ar y buarth ac i ddringo, cropian a chydbwyso ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel cymysgu lliwiau tra'n peintio wrth îsl. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn ymestyn medrau'r plant yn dda wrth goginio llysiau a pherlysiau yn y gegin fwd. Mae hyn yn cefnogi medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r plant yn llwyddiannus, yn ogystal â'u dysgu sut i drafod, defnyddio a gofalu am bethau byw.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm buddiol a chyffrous, sy'n dilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant yn dda. Maent yn defnyddio arsylwadau'n briodol

i gofnodi cynnydd y plant ac i addasu’r ddarpariaeth er mwyn ymateb yn well i’w hanghenion. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro’n defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio’r camau nesaf yn natblygiad y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn ymestyn eu dealltwriaeth yn ystod sesiynau chwarae trwy herio unigolion i esbonio eu gweithredoedd yn bwyllog a dealladwy. Gwneir hyn wrth drafod sut i gynllunio ac adeiladu llwybrau antur ac wrth drafod sut i ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm, y môr a’r jyngl. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i wella medrau digidol cynnar y plant. Maent yn eu hannog i ddefnyddio camerâu, cynnal trafodaethau dychmygus ar ffonau symudol a chyfarwyddo ceir electronig.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol, Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth yn effeithiol. Er enghraifft mae’r plant yn trafod sut mae bobl yn dygymod gydag anableddau.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a darparu llyfryn i rieni am gynnydd eu plant ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a glân iawn. Maent yn cau’r giât ac nid oes modd ymwelwyr gael mynediad i’r lleoliad ar unrhyw adeg oni bai fod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi’n yn brydlon ac mae ymarferwyr yn cadw’r holl gofnodion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu’r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd. Er enghraifft, yr offer tân a’r blychau cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol ac maent yn cael eu hadolygu yn gywrain. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, sydd yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sydd yn groesawgar a chynnes. Mae’r amgylchedd yn hunangynhwysol ac yn sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lle ar gyfer y nifer o blant sydd yn mynychu’n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau pwrpasol. Maent yn sicrhau bod y gegin a’r holl gyfarpar yn lân, a hynny’n sicrhau eu bod yn paratoi byrbrydau yn gywir. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r coridorau lle maent yn storio cotiau ac esgidiau glaw ar unedau isel, a hynny’n hybu annibyniaeth y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig mynediad barhaus i blant gael chwarae tu allan. Maent wedi creu amgylchedd ysgogol a chyffrous yn yr ardal tu allan sydd yn cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Er enghraifft, mae’r ardd yn darparu cyfleoedd cyfoethog I’r plant fwynhau dysgu am blannu llysiau a blodau a chwarae gydag adnoddau a chynhwysion go iawn. Mae arweinwyr yn

cynllunio ardaloedd dysgu agored sydd yn gwahodd y plant i arbrofi. Er enghraifft, ardal chwarae rôl, ardal natur, ardal greadigol ac ardal ymlacio lle ceir ystod o lyfrau a chlustogau. Maent hefyd yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, caiff plant eu herio i ddringo, cydbwyso, adeiladu, llenwi, cario a gwagio o dan oruchwyliaeth.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol i blant ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran ac mae rhain wedi eu gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae'r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft wrth arbrofi ar feiciau, sgwteri a cheir. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig cyfleoedd iddynt brofi adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, doliau, llyfrau a chylchgronau o wledydd y byd, a llefydd ar draws Cymru a thu hwnt. Mae ymarferwyr yn darparu arddangosfeydd ar ddathliadau a digwyddiadau megis Diwali a Dydd y Cofio, sydd o gymorth i ddyfnhau dealltwriaeth y plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr i ddarparu profiadau difyr er lles y plant. Mae gweledigaeth gadarn y rheolwyr a'r arweinwyr yn sicrhau darpariaeth gyfoethog a deniadol, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau a lles y plant. Gwneir hyn trwy gynnig gweithgareddau amrywiol a difyr, fel defnyddio ardaloedd plannu yn bwrpasol a darparu cyfleoedd buddiol i blant arbrofi ac ymchwilio wrth y gegin fwd.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn gweithredu prosesau effeithiol i gynnal a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gynllunio profiadau perthnasol, sy'n dilyn diddordebau'r plant yn ddeallus. Mae'r rheolwyr, arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnig cymorth bugeiliol gofalus a charedig. Maent yn cymell y plant i ymdrechu a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu ac mae eu cefnogaeth gyson yn cynnal y plant yn llwyddiannus.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn arfarnu gwaith y lleoliad yn rheolaidd ac effeithiol. Maent yn cydweithio i ddilysu penderfyniadau yn dda ac i adeiladu ar gryfderau'r lleoliad a thargedu'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn drwyadl a maent yn llwyddo i wella'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu eu hymarfer wrth arsylwi plant ac wrth wella'r cyswllt gyda rhieni. Mae'r rheolwyr, arweinwyr a'r ymarferwyr yn dîm cytûn ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i gyflawni'r eu targedau gwella.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Er enghraifft, maent yn cynnal trafodaethau effeithiol â'r holl rhanddeiliaid, fel rhieni a gwarchodwyr a'r awdurdod lleol, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn synhwyrol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r plant.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys ar gael i gefnogi'r plant. Maent yn trefnu hyfforddiant defnyddiol i fodloni anghenion yr ymarferwyr yn gydwybodol, sy'n cynnwys goruchwyliadau a gwerthusiadau bwriadus. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn dda.

Mae'r berthynas a'r cydweithio cadarnhaol â'r ysgol, sy'n rhannu'r safle, yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn dda. Mae'r lleoliad yn dechrau datblygu partneriaethau buddiol gyda'r gymuned leol, er enghraifft wrth wahodd storïwr i ddiddori'r plant a'u rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau hyn wedi gwreiddio'n gadarn hyd yma, sy'n tueddu i lesteirio ar gyfleoedd i blant ddysgu am eu cynefin.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/01/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 29 Ionawr 2024